MEETING OF THE CABINET
OF TORFAEN COUNTY BOROUGH COUNCIL
Held on Tuesday, 9 October 2018 at 10.30 am
In the Council Chamber, Civic Centre, Hanbury Road, Pontypool, NP4 6YB

MINUTES

1. Attendance

Executive Members (with Portfolios): Councillors**:**

Richard Clark – Deputy Leader
Veronica Crick – Executive Member Performance Improvement & Corporate Governance
David Daniels – Executive Member Communities, Housing & Anti-Poverty
Mandy Owen – Executive Member Children and Young People
David Yeowell – Executive Member for Education and Life Long Learning

Officers:

Nigel Aurelius – Assistant Chief Executive (Resources)
Dave Congreve – Assistant Chief Executive (Strategy)
Delyth Harries – Monitoring Officer
Rachel Jowitt – Chief Officer Neighbourhoods, Planning & Public Protection
Dave Lily – Head of Financial Services
Keith Rutherford – Chief Officer Social Care & Housing
John Tushingham – Head of Access, Engagement & Performance
Alison Ward – Chief Executive
Lynne Williams – Head of Business Support & Intelligence

Also attending:
Liesbeth Beeckman, PSB Trainee
Dominique Redman, Senior Business Support Officer (Democratic Services)

Action

2 Apologies for absence

2.1 Apologies for absence were received from Councillors Fiona Cross and Anthony Hunt.

3 Declarations of Interest

3.1 The Monitoring Officer referred to Agenda Item 7, 21st Century Schools – Strategic/Outline Business Case for 3-16 Roman Catholic School and advised that members should declare a personal interest if they were council appointed governors of Our Lady of the Angels Roman Catholic Primary School, St David's Roman Catholic Primary School or St Albans Roman Catholic High School. The MO also advised that members if

members were a governor – not appointed by the council, of either of these schools, or if they had a close personal associate who attended or worked at any of these schools, members should declare a prejudicial interest and leave the room whilst the item was being discussed. No interests were declared in relation to this item.

3.2 The MO referred to Agenda Item 8, Blaenavon Industrial Landscape World Heritage Site Management Plan (2018-2023) and advised Councillor Alan Jones that he had a personal interest in relation to this item as he was a Member of Blaenavon Town Council who had been consulted on the Plan. Councillor Alan Jones confirmed his personal interest.

4 Confirmation of Cabinet minutes - 04/09/2018

4.1 The minutes were confirmed as an accurate record of the meeting.

5 Updates on actions

5.1 It was noted that there were no outstanding actions.

6 Financial Planning 2019/20 And Beyond

6.1 The Assistant Chief Executive (Resources) (ACXR) highlighted the key areas of the report which outlined an approach for 2019/20 that dovetailed with the council's overall medium term planning approach. The ACXR commented in particular around:

- Cash reductions faced by councils across Wales due to the disappointing budget;
- Welsh Government's focus on funding the Health Service, despite the roles played by the council in terms of preventative work;
- The demand in Children's Services being a particularly challenging area;
- The disappointing likelihood of another 'one-year' settlement from Local Government which made planning more challenging, particularly given the requirements of the council to work in line with the principles of the Wellbeing and Future Generations Act;

6.2 Other Members echoed the ACX(R) comments around the 'one-year' settlement and Welsh Government's focus on funding the Health Service.

6.3 Councillor Clark praised the work of the ACX(R) and his team. He commented around the possibility of forthcoming difficult decisions in terms of reduction in services and reduction of staff. He also commented around his disappointment of the expected 'one-year' settlement from Local Government, particularly given the expectation of the Council to produce a medium term financial plan.

6.4 In response to the comments made by Members, the ACX(R) stated that the 'one-year' settlement had been raised regularly with Welsh Government. He stated that regardless of the difficulties faced by the council and elected members in terms of the forward forecast and decision making, Welsh Government had never provided a reasonable explanation.

6.5 Cabinet noted the report and endorsed the approach outlined in paragraph 6 of the report.

7 21st Century Schools - Strategic/Outline Business Case For 3-16 Roman Catholic School

7.1 Councillor Yeowell introduced the report which sought Cabinet approval to submit to Welsh Government, on behalf of the Archdiocese of Cardiff, the Strategic/Outline Business Case for a new 3-16 school to replace Our Lady of the Angels, St David's and St Alban's schools. In summary, he commented as follows:

- This was the first report of several to be presenting to Cabinet/ Council over the coming months regarding the Archdiocese's proposal to create a 3-16 school.
- The funding proposal had already been approved in principle by Welsh Government because it was included in the 21st Century School Programme 'Band B' submission, but the Archdiocese now needed to make a more detailed case and council officers were providing technical support in that process.
- Funding involved an 85% contribution from WG the remaining funded, in the main, by the Archdiocese with a maximum contribution of £1,000,000 from the Council;
- The business case is just one element. A change of this type requires statutory consultation through which the merits or otherwise of the proposal will be robustly tested. The investment will only happen if that consultation concludes it should go ahead.

7.2 The Head of Access & Engagement (HoA&E) added the following main points:

- Council approval would also be required due to the authority's financial contribution of up to £1,000,000;
- Consultation on the school reorganisation proposals for the 3 existing schools was expected to begin in January 2019 and would be led by the Archdiocese but again with officer support;
- The proposed location of the 3-16 Roman Catholic School would be known before that consultation commenced; and
- Admission numbers in the 3 affected schools would need to be managed down ahead of the proposed closure date of 2022. This would be the responsibility of the Archdiocese/schools because they

are the admissions bodies.

7.3 Members commented around the current condition of the school buildings concerned in this project, in particular St Alban's, and welcomed the proposals set out in the report which were being driven by the Archdiocese. Members also recognised that some children who attended St Alban's School were from neighbouring local authorities.

7.4 In response to member's comments, the HoA&E explained that the condition of St Alban's was in parts 'Category D' building condition, the worst category, and this was one of the key drivers for the project.

7.5 Cabinet provided approval to submit to Welsh Government, on behalf of the Archdiocese of Cardiff, the Strategic/Outline Business Case for a new 3-16 school to replace Our Lady of the Angels, St David's and St Alban's Schools.

8 Blaenavon Industrial Landscape World Heritage Site Management Plan -(2018-2023)

8.1 Councillor Jones provided a summary of the report which sought Cabinet approval of the Blaenavon Industrial Landscape World Heritage Site Management Plan (2018-2023). The Chief Officer Neighbourhoods, Planning & Public Protection (CONP&PP) highlighted the key areas of the report in detail.

8.2 The CONP&PP praised the work of Rebecca Hartley who had led and facilitated this project. She informed members that Heritage Lottery Funding had commented that the bid submitted by Rebecca was one of the best they had received in terms of its thoroughness and business case for investment. The CONP&PP also informed members that, due to Rebecca's work on this project, she had been asked to be a Leader for Heritage UK which she was now participating in.

8.3 Members commended the work of Rebecca Hartley and welcomed the the report.

8.4 Cabinet approved the Blaenavon Industrial Landscape World Heritage Site Management Plan (2018-2023).

9 Cabinet Appointments to Joint Committees and Partnership Bodies

9.1 The HoBS&I highlighted the key areas of the report which asked Cabinet to agree appointments to joint committees and partnership bodies where such appointments fell within the responsibility of the Cabinet.

9.2 Councillor Clark referred to Appendix one, Schedule of Appointments and asked members to note the following amendments:

- Appoint Councillor Fiona Cross to Cardiff City Region Transport Authority for 2018/19; and
- Appoint Councillor Richard Clark as Councillor Anthony Hunt's substitute on Cardiff Capital Region City Deal Joint Committee.

9.3 Further to questions from Councillor Crick, the ACX(R) clarified that the National Procurement Service had replaced the Welsh Purchasing Consortium.

9.4 Cabinet agreed to:

- The appointments to Joint Committees and Partnership Bodies listed in Appendix A to the report, subject to the following amendments:

  (i) Councillor Fiona Cross be appointed to Cardiff City Region Transport Authority for 2018/19; and
  (ii) Councillor Richard Clark be appointed as Councillor Anthony Hunt's substitute on Cardiff Capital Region City Deal Joint Committee for 2018/19.

- These appointments having immediate effect until Cabinet next amended them, or the next Local Government Elections; and

- European and Regional Affairs, and Equalities matters continuing to be dealt with at meetings of the full Cabinet, rather than by sub committees.

Cabinet noted the need for a report to be submitted to Full Council to seek delegated authority for the Monitoring Officer, in consultation with the Members' Constitution Working Party, to update the Council's Constitution to reflect the joint committees and partnership bodies currently in operation (as outlined in Appendix A to the report).

Chair

Author: Dominique Redman, Senior Business Support Officer (Democratic Services)
16 October 2018

CYFARFOD CABINET
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL TORFAEN
A gynhaliwyd ar ddydd Mawrth 9 Hydref 2018 am 10.30 am
Yn Siambr y Cyngor, Y Ganolfan Ddinesig, Hanbury Road, Pont-y-pŵl, NP4 6YB

COFNODION

1. Yn bresennol

Yr Aelodau Gweithredol (gyda Phortffolio): Y Cynghorwyr**:**

Richard Clark – Dirprwy Arweinydd
Veronica Crick - Yr Aelod Gweithredol dros Wella Perfformiad a Llywodraeth Gorfforaethol
David Daniels – Yr Aelod Gweithredol dros Gymunedau, Tai a Gwrthdlodi
Mandy Owen – Yr Aelod Gweithredol dros Blant a Phobl Ifanc
David Yeowell – Yr Aelod Gweithredol dros Addysg a Dysgu gydol Oes

Swyddogion:

Nigel Aurelius –Prif Weithredwr Cynorthwyol (Adnoddau)
Dave Congreve –Prif Weithredwr Cynorthwyol (Strategaeth)
Delyth Harries –Swyddog Monitro
Rachel Jowitt – Prif Swyddog Cymdogaethau, Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd
Dave Lily – Pennaeth Gwasanaethau Ariannol
Keith Rutherford – Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol a Thai
John Tushingham – Pennaeth Ennyn Diddordeb a Mynediad
Alison Ward – Prif Weithredwr
Lynne Williams – Pennaeth Cefnogi Busnes a Gwybodaeth

Hefyd yn bresennol:
Liesbeth Beeckman, Hyfforddai gyda'r BGC
Dominique Redman, Uwch Swyddog Cefnogi Busnes (Gwasanaethau Democrataidd)

Cam

2 Ymddiheuriadau am absenoldeb

2.1 Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Fiona Cross ac Anthony Hunt.

3 Datganiadau o Fudd

3.1 Cyfeiriodd y Swyddog Monitro at Eitem 7 ar yr Agenda, Ysgolion yn 21ain Ganrif – Achos Busnes Strategol/Amlinellol ar gyfer Ysgol Gatholig 3-16 a dywedodd y dylai aelodau ddatgan budd personol os oedden nhw'n llywodraethwyr a benodwyd gan y Cyngor i Ysgol Gynradd Gatholig Our

Lady of the Angels, Ysgol Gynradd Gatholig Dewi Sant neu Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Alban. Dywedodd y Swyddog Monitro hefyd y dylai aelodau ddatgan budd niweidiol a gadael yr ystafell tra bod yr eitem yn cael ei thrafod os oedden nhw'n llywodraethwr na benodwyd gan y cyngor yn un o'r ysgolion yma, neu os oedd ganddyn nhw gydnabod agos personol a oedd yn mynychu neu'n gweithio yn unrhyw un o'r ysgolion yma. Ni roddwyd unrhyw ddatganiadau mewn perthynas â'r eitem hon.

3.2 Cyfeiriodd y Swyddog Monitro ar Eitem 8 ar yr Agenda, Cynllun Rheoli Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon (2018-2023) a dywedodd wrth y Cynghorydd Alan Jones fod ganddo fudd personol mewn perthynas â'r eitem hon gan ei fod yn aelod o Gyngor Tref Blaenafon yr oedd ymgynghoriad wedi bod â nhw ynglŷn â'r cynllun. Cadarnhaodd y Cynghorydd Alan Jones ei fudd personol.

4 Cadarnhau cofnodion y Cabinet - 04/09/2018

4.1 Cadarnhawyd fod y cofnodion yn rhai cywir.

5 Y diweddaraf ar y camau gweithredu

5.1 Nodwyd nad oedd yna gamau heb eu cwblhau.

6 Cynllunio Ariannol 2019/20 a Thu Hwnt

6.1 Pwysleisiodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Adnoddau) adrannau allweddol yr adroddiad a oedd yn amlinellu dull ar gyfer 2019/20 a oedd yn plethu gyda dull cynllunio'r cyngor ar gyfer y tymor canolig. Gwnaeth y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Adnoddau) yn arbennig ynglŷn â:

- Gostyngiadau ariannol y mae cynghorau'n eu hwynebu ar draws Cymru oherwydd y gyllideb siomedig;
- Pwyslais Llywodraeth Cymru ar ariannu'r Gwasanaeth Iechyd, er gwaethaf rhan cynghorau o ran gwaith ataliol;
- Bod y galw ar Wasanaethau Plant yn faes arbennig o heriol;
- Y tebygrwydd siomedig o setliad 'un flwyddyn' arall gan Lywodraeth Leol a oedd yn gwneud cynllunio'n fwy heriol, yn arbennig oherwydd y gofyn sydd ar y cyngor i weithio'n unol ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol;

6.2 Ategodd aelodau eraill sylwadau'r Prif Weithredwr Cynorthwyol (Adnoddau) ynglŷn â'r setliad 'un flwyddyn' a phwyslais Llywodraeth Cymru ar ariannu'r Gwasanaeth Iechyd.

6.3 Rhoddodd y Cynghorydd Clark glod i waith y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Adnoddau) a'i dîm. Gwnaeth sylw am y posibilrwydd o benderfyniadau anodd o ran toriadau mewn gwasanaethau a gostyngiadau mewn staff.

Gwnaeth sylw hefyd am ei siom ynglŷn â'r setliad 'un flwyddyn' disgwyliedig gan Lywodraeth Leol, yn arbennig oherwydd y disgwyliad sydd ar y Cyngor i gynhyrchu cynllun ariannol tymor canolig.

6.4 Mewn ymateb i sylwadau gan yr Aelodau, dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Adnoddau) fod y setliad 'un flwyddyn' wedi ei drafod yn rheolaidd gyda Llywodraeth Cymru. Dywedodd nad oedd Llywodraeth Cymru erioed wedi cynnig esboniad rhesymol, er gwaethaf yr anawsterau yr oedd y cyngor a'r aelodau etholedig yn eu hwynebu o ran y rhagolwg a phenderfynu.

6.5 Nododd y Cabinet yr adroddiad a chymeradwyo'r cynllun ym mharagraff 6 yr adroddiad.

7 Ysgolion yr 21ain Ganrif – Achos Busnes Strategol/Amlinellon ar gyfer Ysgol Gatholig 3-16

7.1 Cyflwynodd y Cynghorydd Yeowell yr adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i gyflwyno i Lywodraeth Cymru, ar ran Archesgobaeth Caerdydd, yr Achos Busnes Strategol/Amlinellol am ysgol newydd 3-16 yn lle ysgolion Our Lady of the Angels, Dewi Sant a Sant Alban. Yn gryno, dywedodd fel a ganlyn:

Dyma'r adroddiad cyntaf mewn sawl adroddiad a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet/Cyngor dros y misoedd nesaf mewn perthynas ag argymhelliad yr archesgobaeth i greu ysgol 3-16 newydd

- Roedd y cynnig ariannol eisoes wedi ei gymeradwyo mewn egwyddor gan Lywodraeth Cymru oherwydd yr oedd wedi ei gynnwys yng nghais 'Band B' Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, ond roedd angen nawr i'r Archesgobaeth wneud achos mwy manwl ac roedd swyddogion y cyngor yn rhoi cefnogaeth dechnegol yn y broses honno.
- Roedd yr ariannu'n cynnwys cyfraniad o 85% gan Lywodraeth Cymru gyda'r 15% arall, ar y cyfan, yn dod o'r Archesgobaeth gyda mwyafswm o £1,000,000 o gyfraniad gan y Cyngor
- Dim ond un elfen yw'r achos busnes. Mae newid o'r math yma yn gofyn am ymgynghoriad statudol a fydd yn profi gwerth neu wendid y cynnig mewn ffordd wydn. Bydd y buddsoddiad ond yn digwydd os fydd yr ymgynghoriad yn arwain at benderfyniad y dylai'r cynnig symud ymlaen

7.2 Ychwanegodd Pennaeth Ennyn Diddordeb a Mynediad y prif bwyntiau canlynol:

- Byddai angen cymeradwyaeth gan y cyngor hefyd oherwydd cyfraniad ariannol yr awdurdod o hyd at £1,000,000;
- Disgwylid i ymgynghoriad ar yr ad-drefnu ysgolion ddechrau yn lonawr 2019 a byddai'n cael ei arwain gan yr Archesgobaeth ond, eto, gyda chefnogaeth swyddogion;

- Byddai lleoliad arfaethedig yr Ysgol Gatholig 3-16 yn hysbys cyn dechrau'r ymgynghoriad hwnnw; a
- Byddai angen cyfyngu niferoedd derbyn yn y 3 ysgol sy'n cael eu heffeithio cyn y dyddiad cau arfaethedig yn 2022. Cyfrifoldeb yr Archesgobaeth/ysgolion fyddai hyn oherwydd nhw yw eu cyrff derbyniadau nhw'u hunain.

7.3 Gwnaeth aelodau sylw ynglŷn â chyflwr presennol adeiladau'r ysgolion yn y cynllun hwn, yn arbennig Sant Alban, a chroesawon nhw'r argymhellion yn yr adroddiad a oedd yn cael eu gwthio gan yr Archesgobaeth. Roedd aelodau hefyd yn cydnabod fod rhai plant a oedd yn mynychu Ysgol Sant Alban yn dod o awdurdodau lleol cyfagos.

7.4 Mewn ymateb i sylwadau aelodau, esboniodd Pennaeth Ennyn Diddordeb a Mynediad bod cyflwr Sant Alban yn rhannol â chyflwr 'Categori D' i'r adeiladau, y categori gwaethaf, ac roedd hyn yn un o'r prif ffactorau a oedd yn gyrru'r cynllun.

7.5 Cymeradwyodd y Cabinet gyflwyniad i Lywodraeth Cymru, ar ran Archesgobaeth Caerdydd, yr achos Busnes Strategol/Amlinellol am ysgol 3-16 newydd i gymryd lle ysgolion Our Lady of the Angels, Dewi Sant a Sant Alban.

8 Cynllun Rheoli Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon - (2018-2023)

8.1 Rhoddodd y Cynghorydd Jones grynodeb o'r adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i Gynllun Rheoli Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon (2018-2023). Pwysleisiodd Prif Swyddog, Cymdogaethau, Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd adrannau allweddol yr adroddiad yn fanwl.

8.2 Rhoddodd Prif Swyddog, Cymdogaethau, Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd glod i waith Rebecca Hartley a oedd wedi arwain ac wedi hwyluso'r cynllun hwn. Dywedodd wrth aelodau bod Loteri Treftadaeth wedi dweud mai cais Rebecca oedd un o'r rhai gorau iddyn nhw dderbyn o ran trylwyredd ac achos busnes ar gyfer buddsoddiad. Dywedodd y Prif Swyddog, Cymdogaethau, Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd wrth aelodau hefyd bod Rebecca, o ganlyniad i'w gwaith ar y cynllun hwn, wedi cael cais i fod yn Arweinydd i Heritage UK ac roedd nawr yn ymgymryd â hyn.

8.3 Cymeradwyodd yr aelodau waith Rebecca Hartley a chroesawon nhw'r adroddiad.

8.4 Cymeradwyodd y Cabinet Gynllun Rheoli Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon (2018-2023).

9 Penodiadau'r Cabinet i Gyd-bwyllgorau a Chyrff Partneriaeth

9.1 Pwysleisiodd y Pennaeth Cefnogi Busnes a Gwybodaeth adrannau allweddol yr adroddiad a oedd yn gofyn i'r Cabinet gytuno ar benodiadau i gydbwyllgorau a chyrff partneriaeth ble roedd penodiadau o'r fath yn gyfrifoldeb i'r Cabinet.

9.2 Cyfeiriodd y Cynghorydd Clark at Atodiad un, Rhestr o Benodiadau a gofynnodd i'r Aelodau nodi'r diwygiadau canlynol:

- Penodi'r Cynghorydd Fiona Cross i Awdurdod Trafnidiaeth Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ar gyfer 2018/19; a
- Penodi'r Cynghorydd Richard Clark fel aelod amgen i'r Cynghorydd Anthony Hunt ar Gyd-bwyllgor Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

9.3 Ar ôl cwestiynau gan y Cynghorydd Crick, eglurodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Adnoddau) fod y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol wedi cymryd lle'r Consortiwm Pwrcasu Cymreig.

9.4 Cytunodd y Cabinet:

- I'r penodiadau i Gyd-bwyllgorau a Chyrff Partneriaethau a restrwyd yn Atodiad A yr adroddiad, gyda'r diwygiadau canlynol:

  (i) Y Cynghorydd Fiona Cross i'w phenodi i Awdurdod Trafnidiaeth Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ar gyfer 2018/19; a

  (ii) Y Cynghorydd Richard Clark i'w benodi fel aelod amgen i'r Cynghorydd Anthony Hunt ar Gyd-bwyllgor Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ar gyfer 2018/19.

- Bod y penodiadau'n dechrau'n syth ac yn parhau hyd nes i'r Cabinet eu newid eto, neu'r Etholiadau Lleol nesaf; a

- Bod Materion Ewropeaidd a Rhanbarthol, a materion Cydraddoldeb yn parhau i gael eu trafod mewn cyfarfodydd o'r Cabinet llawn yn hytrach nag is-bwyllgorau.

Nododd y Cabinet yr angen i adroddiad gael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn i ofyn am awdurdod dirprwyedig i'r Swyddog Monitro, mewn ymgynghoriad â Gweithgor yr Aelodau ar y Cyfansoddiad, i ddiweddaru Cyfansoddiad y Cyngor i adlewyrchu'r cydbwyllgorau a'r cyrff partneriaethau sy'n bodoli ar hyd o bryd (fel amlinellwyd yn Atodiad A'r adroddiad).

Cadeirydd

Awdur: Dominique Redman, Uwch Swyddog Cefnogi Busnes (Gwasanaethau Democrataidd)
16 Hydref 2018